

## **Cyngor Tref Llandeilo Fawr**

### **Llandeilo Fawr Town Council**



#### **Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 26<sup>ain</sup> o Ebrill 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh**

**Presennol:** Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Dirprwy Faer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Owen James. y Cynghorydd Sir Edward Thomas  
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)  
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)  
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Gordon Kilby

Cyn i'r cyfarfod gychwyn, mynychodd y Prif Arolygydd Steve Thomas i wrando ar bryderon y Cynghorwyr am amrywiol faterion sy'n effeithio ar Llandeilo. Fe wnaeth addo gofyn i'r Swyddogion gynyddu eu presenoldeb gweledol mewn rhai ardaloedd sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fe fyddai'n ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu camerâu cylch cyfyng (CCTV).

**Datganiadau o Fuddiant.** Fe wnaeth y Cyng. Rebecca Butcher ddatgan buddiant yn yr eitem ar Geidiaid Llandeilo ac ni wnaeth gyfranogi yn yr eitem pan drafodwyd materion ariannol.

#### **Materion yn ymwneud â'r Heddlu**

Dywedodd y SCCH Roger Anthony y byddai'r Heddlu'n patrolio'n amlach ym Mharc Penlan a'r Orsaf Drenau.

#### **Cof 18 / Ebr / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir**

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Roedd wedi cysylltu ag Adran Tai CSG mewn perthynas â diffyg cynnal a chadw ardaloedd cyhoeddus ger adeiladau'r Cyngor yn y Dref. Roedd CSG yn paratōi adroddiad i gyfyngu ar nifer y cerbydau sy'n cael mynediad ar dir yr ysgolion Cynradd.

#### **Cof 19 / Ebr / 17 Cofnodion Blaenorol**

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 26<sup>ain</sup> o Fawrth 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 12<sup>fed</sup> o Ebrill 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Julia Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid. Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8<sup>fed</sup> o Fawrth 2017, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn gyda'r diwygiad canlynol:-

Angen ychwanegu – Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn gofyn i Mr David Rice i fwrw ati i baratoi adroddiad cynnal a chadw coed 3 blynedd am £350.

Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 20 / Ebr / 17 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol**

Ynglŷn â Cof 14/Ebr / 17. Cynigodd y Cyng. Richard Wallace bod 1 awr ychwanegol o dâl yn cael ei roddi i'r Swyddog, fesul mis, am y 6 mis nesaf gan gychwyn ar Fai'r 1<sup>af</sup>, ac yna byddai'r mater yn cael ei adolygu. Roedd hyn o ganlyniad i'r llwyth gwaith ychwanegol yn ystod y trafodaethau Trosglwyddo Asedau. Roedd pawb o blaid.

Ynglŷn â Cof 15/Ebr /17. Dywedodd y Clerc ei fod wedi cwblhau mwyafrif y cais am grant gan Cariad. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn gwneud cais am 3 diffibriliwr, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at y perchennogion i ofyn am ganiatâd i osod casys y diffibrilwyr ar eu heiddo. Cost bob diffibriliwr fyddai £1,450.

- a) CSG mewn perthynas â'r porth bwaog i'r maes parcio
- b) Mr Lyn Griffiths, perchennog Tafarn yr Hen Vic
- c) Siop y Co-operative ar Stryd Rhosmaen

### **Cof 21 / Ebr / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb**

1. Dafydd Llewellyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yn cyhoeddi grantiau cymunedol hyd at £5,000. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod y Cyngor yn gwneud cais am Gamera Cylch Cyfyng (CCTV) i'w osod ym Mharc Le Conquet, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd hyn i wneud cais am grant o £3,000 ac yna byddai'r Cyngor yn talu'r gweddill. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 22 / Ebr /17 Gohebiaeth er gwybodaeth**

1. Gareth Jones, Rheolwr Datblygu Dawnus. Rhoddodd Mr Jones y diweddaraf ar eu cais i'r gronfa Loteri i adnewyddu'r Hen Neuadd Farchnad. Roedd y cwmni'n dal i aros am gyngor pellach gan gomisiwn y Loteri.
2. Y Cyng. Edward Thomas, mewn perthynas â pherchennog newydd Banc HSBC sydd wedi cau. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at y perchennog i gael y diweddaraf ar gwblhau'r gwaith adnewyddu a nodwyd yn y cais cynllunio.
3. Cwmfera, ynglŷn â chwrs ar ymgysylltu â'r Gymuned. Nodwyd.

### **Cof 23 / Ebr / 17 Materion Ariannol**

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Ffôn BT	£ 50.55	£ 10.11	£ 60.66
Band Llydan BT	£ 53.20	£ 10.64	£ 63.84
Hysbyseb yn y SW Guardian	£ 155.00	£ 31.00	£ 186.00*

du - debyd uniongyrchol # - siec \* - bacs.

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Incwm a hepgorwyd o Gyfarfod y Pwyllgor Cyllid nas nodwyd ar yr Agenda

Dathlu Dewi (digwyddiadau)	£ 2,038.63
Dathlu Dewi (rhodd cadeirydd CSG)	£ 25.00

## 2. Archwiliad 2016/17

- i) Dywedodd y Swyddog Cyllid y byddai pob un o'r dogfennau'n cael eu cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol ar y 10<sup>fed</sup> o Fai 2017.
- ii) Gofynnodd y Swyddog Cyllid i bob un o'r Cynghorwyr i ystyried y Datganiadau Cyfrifyddu, fel rhan o'r broses Archwilio. Roedd pawb yn cytuno gyda'r cyfrifon a gyflwynwyd.
- iii) Gofynnodd y Swyddog Cyllid i'r Maer i ddarllen y Datganiadau Llywodraethiant, fel rhan o'r broses Archwilio. Roedd pob un o'r Cynghorwyr yn cytuno gyda'r datganiadau. Nid oes gan y Cyngor unrhyw Gronfeydd Ymddiriedolaeth.
- iv) Roedd yr Aseidiadau Risg a Rheolaeth Ariannol wedi cael eu hasesu a chytunwyd eu gadael nhw'n ddinewid.
- v) Ychwanegwyd pwrkas unedau sain ac offer sain, am gost o £600, at y Gofrestr Asedau. Hefyd, ychwanegwyd y 3 mainc a osodwyd o amgylch y Dref fel Dodrefn Stryd, am gost o £ 2,000.  
Roedd hen Gadwyn ac arfbais UDC wedi cael eu symud o Fanc HSBC i Neuadd y Sir.
- vi) Yn yr Archwiliad eleni, roedd yna gwestiwn yn ymwneud â chydymffurfio â'r Côt Ymddygiad. Roedd pob un o'r Cynghorwyr wedi arwyddo'r ddogfen hon ar ddechrau eu tymor yn y Swydd. Roedd y rhain wedi cael eu diweddarau'n unigol, wrth i amgylchiadau newid. Roedd pob un o'r Cynghorwyr wedi mynychu Cysiau CSG yn Flynyddol. Roedd y 4 Cynghorydd cyfetholedig wedi mynychu cysiau wedi iddynt ymuno â'r Cyngor.
- vii) Adroddiad ar Gyllideb 2017/18.  
Cyflwynodd y Swyddog Cyllid Gyllideb ddrafft ar gyfer y Flwyddyn Ariannol sydd i ddod.  
Cynigodd y Maer y Cyng. Colin Jenkins bod y Gyllideb yn cael ei derbyn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

### **Cof 24/ Ebr / 17 Materion Ariannol Eraill**

Ceisiadau am Gymorth Ariannol.

1. Gŵyl Gerdd Llandeilo Fawr  
**Fe wnaeth y Cyng. Julia Jones ddatgan buddiant yn yr eitem hon. Fe arwyddodd y Llyfr Datganiadau o Fuddiant ac ni wnaeth gyfranogi yn yr eitem hon.**  
Roedd y Swyddog Cyllid wedi argymhell yn ei Gyllideb ddrafft y dylai'r Cyngor ostwng eu cyfraniadau at ddigwyddiadau Cyhoeddus a gynhelir yn y Dref.  
Cynigodd y Cyng. Robert Jones bod £3,250 yn cael ei roddi i'r Wyl Gerdd, sef gostyngiad o £250 ar rodd llynedd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace.  
Roedd pawb o blaid.
2. Mannau Agored Dyffryn Tywi  
Cynigodd y Cyng. Richard Wallace rodd o £50. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
3. RNLI.  
Cynigodd y Cyng. Richard Wallace rodd o £100, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
4. Geidiaid Llandeilo  
Cais oedd hwn i gefnogi Arweinydd y Geidiaid i fynd ar daith i Tsieina ac, wrth wneud hynny, i godi £1,500 ar gyfer ei Grŵp yn Llandeilo.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas rodd o £200, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid. Byddai'r Cyngor yn gofyn i'r Arweinydd i annerch y Cyngor pan fyddai wedi dychwelyd.

**Cynigodd y Cyng. Richard Wallace bod Rheol Sefydlog 6B yn cael ei gohirio am 30 munud er mwyn cwblhau Busnes y Cyngor.**

**Cof 25 / Ebr / 17 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau**

Dywedodd Cadeirydd y Gweithgor, y Cyng. Edward Thomas, bod y grŵp yn y broses o gynnal proses dendro ar gyfer contract torri'r glaswellt ym Mharc Penlan Park a Pharc Le Conquet. Roedd wyth contractwr wedi dangos diddordeb mewn cyflwyno tendro.

Holodd y Cyng. Rebecca Butcher a ddylai'r Cyngor llawn fod yn rhan o'r grŵp hwn, gan fod Trosglwyddo Asedau wedi cyrraedd cam mor bwysig. Dywedodd y Cyng. Thomas y byddai'r Grŵp yn cael ei ymwahanu, cyn gynted ag y bydd y brydles ar gyfer Parc Le Conquet wedi cael ei harwyddo, ac yna fe fyddai cynnig i sefydlu Pwyllgor Rheoli Parciau yn cael ei wneud.

**Cof 26 / Ebr / 17 Trawsgludiaeth a Phrifyrdd**

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu adroddiad ar y fandaliaeth a achoswyd yn yr Orsaf Drenau, a oedd yn parhau i fod yn lleoliad ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nodwyd.

**Cof 27 / Ebr / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol**

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw. Cafodd y mater o rodidi ystyriaeth i'r gyllideb ar gyfer y goleuadau Nadolig ei ohirio nes Cyfarfod y Cyngor Llawn ar y 24<sup>ain</sup> o Fai 2017. Nodwyd gweddill yr adroddiad.

**Cof 28/ Ebr / 17 Adroddiad y Maer**

Rhoddodd y Maer adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor.

23 <sup>ain</sup> o Fawrth	Noson Gymdeithasol y Gymdeithas Trefeillio yn y Cottage.
27 <sup>ain</sup> o Fawrth	Cinio'r Olwyn Fewnol yn y White Hart.
13 <sup>eg</sup> o Ebrill	Cyflwyniad Tenovus yn y Plough.
16 <sup>eg</sup> o Ebrill	Ymwelwyr yn cyrraedd o Le Conquet.
17 <sup>eg</sup> o Ebrill	Derbyniad y Maer ar gyfer Gefeilldref Le Conquet. Mynychu Twmpath yn y Neuadd Ddinesig.
18 <sup>fed</sup> o Ebrill	Gwibdaith i Dyddewi
19 <sup>eg</sup> o Ebrill	Cinio'r Gymdeithas Trefeillio yn y Cawdor.
22 <sup>ain</sup> o Ebrill	Diwrnod Agored Clwb Bowlio Llandeilo.
24 <sup>ain</sup> o Ebrill	Cinio Siarter yr Olwyn Fewnol.

**Cof 29 / Ebr / 17 Doedd dim Adroddiadau Eraill**

**Cof 30 / Ebr / 16 Eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Diolchodd y Maer i bob un o'r Cynghorwyr am eu gwasanaeth i'r Dref dros y pum mlynedd ddiwethaf, yn enwedig y Cyng. Julia Jones a'r Cyng. Carol Watts, a oedd yn ymddeol o'u hymrwymadau ar y Cyngor yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.55yh.